# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Little Stars (Deeside) Ltd**

**Uned 69 Third Avenue**
**Parth 2**
**Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy**
**Glannau Dyfrdwy**
**CH5 2LA**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

21/05/2019

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2019.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

| Graddau | Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle mae gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Little Stars (Deeside) Ltd wedi ei gofrestru i ddarparu gofal i hyd at 75 o blant o oed geni hyd at 12 oed.  Ellen Lloyd-Wilson yw'r unigolyn cyfrifol a enwebwyd ar ran y cwmni, a hi yw'r person â chyfrifoldeb hefyd.  Mae Kelly Davies a Rebecca Medenica yn ei helpu i reoli'r gwasanaeth o ddydd i ddydd.  Mae'r gwasanaeth wedi'i leoli ym Mharc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy ac yn gweithredu o uned ddiwydiannol bwrpasol.  Darperir gofal rhwng 07:30 a 18:00, o ddydd Llun i ddydd Gwener  drwy gydol y flwyddyn, ac eithrio gwyliau banc. Darperir y gwasanaeth drwy gyfrwng y Saesneg a chaiff y Gymraeg ei chyflwyno fel rhan o'r drefn ddyddiol.  Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnig darpariaeth Dechrau'n Deg ac Addysg Gynnar.

## Crynodeb

| Thema | Gradd |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arwain a Rheoli** | **Rhagorol** |

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant yn cael eu gwerthfawrogi ac mae'r staff yn hyrwyddo eu llesiant yn rhagweithiol yn y gwasanaeth hwn.  Cânt ofal gan dîm o ymarferwyr ymroddedig a chymwys, sy'n sicrhau y darperir ar gyfer anghenion unigol y plant ac y diwellir yr anghenion hynny'n gyson.  Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn cyfoethogi mwynhad y plant a'u hanghenion unigol.  Mae'r amgylchedd yn lân, yn ddiogel ac yn cynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd chwarae boddhaus.  Drwy arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol a threfnus, mae'r arweinwyr yn gwneud gwelliannau llwyddiannus sy'n gwella canlyniadau i blant yn fawr iawn.

### 2. Gwelliannau

Ers yr arolygiad diwethaf:

- mae'r ardal chwarae yn yr awyr agored wedi cael ei wella ymhellach drwy ychwanegu pod glampio dynodedig, cuddfan helyg, lloriau diogelwch rwber ac ardal ar wahân ar gyfer chwarae blêr yn y gegin fwd.
- Symudwyd ystafell y babanod, sydd bellach yn cynnig lle tawel, wedi'i phaentio'n ddiweddar, gyda charped newydd a chyfleusterau er mwyn i'r

ymarferwyr ddiwallu anghenion gofal unigol y plant yn hawdd.  Er enghraifft, gofod penodol ar gyfer newid cewynnau.
- Mae'r arweinwyr wedi cefnogi a herio ymarferwyr yn llwyddiannus drwy ddirprwyo cyfrifoldebau iddynt sy'n cefnogi eu datblygiad proffesiynol parhaus ac yn fuddiol i'r plant sy'n mynd i'r gwasanaeth.

## 3. Gofynion ac argymhellion

Gwnaethom argymhellion o ran llesiant y plant er mwyn iddynt allu cael gafael ar eu diodydd iach eu hunain drwy gydol y dydd, gofal a datblygiad mewn perthynas â datblygu system sy'n olrhain cynnydd y plant ar draws y gwasanaeth ac arferion y staff mewn perthynas â hylendid deintyddol a threfniadau gofal personol y plant.

## 1. Llesiant Da

### Crynodeb

Gwrandewir ar y plant ar draws y gwasanaeth, a chânt eu hannog i siarad a gwneud penderfyniadau a dewisiadau yn hyderus. Maent yn hapus ac yn gwerthfawrogi'r cysylltiadau agos, cadarnhaol maent yn eu meithrin â'r rhai sy'n gofalu amdanynt. Maent yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'i gilydd ac yn dysgu i aros eu tro a rhannu'n briodol, gyda chymorth gan y staff. Maent yn ymgysylltu â gweithgareddau sy'n seiliedig ar chwarae ac yn awyddus i wybod am brofiadau newydd a chyffrous sydd wedi'u trefnu ar eu cyfer.

### Ein canfyddiadau

Roedd y plant yn rhydd i wneud dewisiadau a phenderfyniadau. Roeddent yn symud yn frwd rhwng gweithgareddau ac yn cael eu hysgogi i chwarae gyda theganau a oedd o ddiddordeb iddynt. Roedd y staff yn parchu barn a syniadau'r plant, roeddent yn ymwybodol o'r dewisiadau a oedd ar gael iddynt, ac yn gwybod pa deganau, adnoddau a chyfarpar oedd ar gael yn dilyn cais. Roedd y plant yn cyfrannu'n dda yn y gweithgareddau a gynlluniwyd. Yn ystod amser cylch, roedd y plant yn dewis pa hwiangerddi i'w canu ac yn cyfeirio eu chwarae eu hunain drwy'r dewisiadau a roddwyd iddynt. Er enghraifft, gofynnwyd iddynt faint o bengwiniaid yr hoffent yn y gweithgaredd chwarae â dŵr, a chafodd eu dewis ei barchu.

Roedd pob un o'r plant yn fodlon eu byd ac wedi setlo'n dda. Roeddent yn ymdopi'n dda â bod ar wahân i'w rhieni, ac roedd y plant newydd a oedd yn dechrau yn fodlon eu byd yn cael eu cysuro gan yr ymarferwyr wrth iddynt ymgyfarwyddo â'u hamgylchedd newydd. Roedd y plant yn gyfarwydd â'r drefn ddyddiol a oedd yn rhoi ymdeimlad o sicrwydd iddynt ac yn sicrhau bod modd iddynt feithrin cysylltiadau clos ac ymdeimlad o berthyn gyda'r ymarferwyr cyfarwydd a oedd yn gofalu amdanynt yn gyson.

Roedd y plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'i gilydd ac yn mwynhau cwmni ei gilydd, gan sgwrsio'n hapus gyda'i gilydd wrth chwarae. Roeddent yn parchu dewisiadau eraill ac roedd y rhan fwyaf ohonynt yn rhannu'n briodol. Cawsant eu hannog i leisio eu barn ac roeddent yn dysgu sut i gymryd eu tro wrth siarad yn llwyddiannus. Er enghraifft, yn ystod amser cylch, rhoddwyd cyfle i bob un ohonynt siarad a phawb yn gwrando arnynt, a phan roedd yn amser mynd gartref, anogwyd y plant i sôn wrth eu rhieni am eu diwrnod. Roedd y plant yn chwarae gyda chyfarpar yn briodol, gan ofalu amdanynt ac yn helpu i dacluso ar ddiwedd y sesiwn yn barchus.

Roedd y plant yn archwilio'r amgylchedd yn rhydd ac yn dewis o amrywiaeth eang o weithgareddau chwarae diddorol a heriol. Roeddent wrth eu bodd yn cydbwyso'n fedrus ar draws y cerrig sarn cyn dringo'r llithren lefel isel a llithro i lawr. Cynigiwyd amrywiaeth eang o gyfleoedd ysgogol i chwarae yn yr awyr agored i bobl plentyn, ac roeddent yn cael budd mawr o'r cyfleoedd newydd a gynigiwyd iddynt. Er enghraifft, defnyddio'r chwistrelli a dysgu sut roeddent yn gweithio. Roedd y plant yn cael cyfnodau estynedig o chwarae di-dor, yn ogystal â chyfleoedd rheolaidd i'r oedolion chwarae ochr yn ochr â nhw. Er

enghraifft, gwelsom fod y plant yn ymuno â'r ymarferydd yn y gornel gyfforddus i edrych ar lyfrau lluniau a gwrando ar stori.  Roedd y plant yn hapus ac yn hyderus i siarad am eu dewis teganau â ni a'u dangos i ni, gan ddod â'u deinosoriaid a'u doliau atom yn rheolaidd a rhyngweithio â ni.

Hybwyd hyder a chydnerthedd y plant yn effeithiol drwy ddefnyddio siartiau clod, gwobrwyon a mannau penodol sy'n fagwrus, ac sy'n eu hannog i ddatblygu eu cyfathrebu a'u hyder.  Roedd y staff yn cydnabod y plant ac yn eu canmol yn rheolaidd, a oedd yn rhoi hwb i'w hunan-barch.  Roedd y plant yn dysgu sut i wneud pethau drostynt eu hunain.  Er enghraifft, cael tro yn bwydo eu hunain yn ystod amseroedd bwyd a gwisgo eu hesgidiau'n annibynnol.  Fodd bynnag, ni allai pob plentyn gael gafael ar ddiod o ddŵr eu hunain gan ei fod wedi'i storio allan o gyrraedd y plant.

## 2. Gofal a Datblygiad Da

### Crynodeb

Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n llwyddiannus, gan ddilyn amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau'n ofalus er mwyn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn rheoli eu rhyngweithio gyda'r plant a'r rhieni'n barchus, ac maent yn hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol yn gyson. Mae'r ymarferwyr yn deall anghenion unigol y plant o ran deiet yn llawn ac yn gwybod sut i'w diwallu'n ddiogel. Maent yn olrhain datblygiad y plant ac yn cynllunio amrywiaeth o weithgareddau sy'n seiliedig ar chwarae sydd o ddiddordeb i'r plant, ac yn eu helpu i ddysgu drwy chwarae. Mae'r ymarferwyr yn ymrwymedig i sicrhau canlyniadau cadarnhaol ar gyfer y plant a sicrhau eu bod yn datblygu'n dda.

### Ein canfyddiadau

Rhoddir blaenoriaeth amlwg i ddiogelu yn y gwasanaeth hwn. Roedd y mwyafrif o'r ymarferwyr wedi mynychu hyfforddiant diogelu yn ddiweddar. Mae'r polisi diogelu'n cael ei adolygu'n rheolaidd, ac mae cyfleoedd helaeth drwy agweddau mewnol ar y gwasanaeth yn sicrhau bod tryloywder o ran arferion y gofal. Roedd yr ymarferwyr yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw drwy annog y plant i fod mor egnïol yn gorfforol, a thrwy sicrhau bod y plant yn cael deiet maethlon, cytbwys ac amrywiol dros gyfnod o bedair wythnos. Roedd y rhan fwyaf o'r ymarferwyr wedi mynd i sesiwn hyfforddi ar hylendid bwyd. Roeddent yn adnabod y plant yn eu gofal yn dda, ac roedd ganddynt ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd dilyn gweithdrefnau'n gywir mewn perthynas ag anghenion deietegol y plant a chadw'r plant yn ddiogel. Roedd yr ymarferwyr yn gyfarwydd iawn â'r weithdrefn newid cewynnau, ond er ei bod yn lleihau'r risg o groeshalogi, nid oedd y weithdrefn yn dilyn canllawiau arfer gorau argymelledig gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Roedd gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth fanwl o anghenion meddygol y plant ac yn sicrhau bod hunan-barch y plant yn cael ei fagu yn ogystal â diwallu eu hanghenion, a hynny mewn ffordd ystyriol. Er enghraifft, defnyddio eli 'tywysoges' a chaniatáu i blentyn wisgo 'coron tywysoges' ar ôl ei ddefnyddio'n llwyddiannus. Roedd yr ymarferwyr yn dilyn y systemau cofnodi ar gyfer rhoi meddyginiaeth yn ddiogel. Roedd y rhain yn cael eu monitro'n ddiogel er mwyn sicrhau bod yr ymarferwyr yn cydymffurfio â'r prosesau disgwyliedig. Cwblhawyd ffurflenni damweiniau a digwyddiadau ac fe'u llofnodwyd gan y rhieni er mwyn cadarnhau eu bod wedi cael gwybod. Roedd ymarferion gwagio'r adeilad adeg tân yn cael eu cynnal yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod yr ymarferwyr a'r plant yn gyfarwydd â'r weithdrefn i'w dilyn os oedd argyfwng. Roedd yr egwyddorion rheoli heintiau yn cael eu hyrwyddo'n dda drwy'r gwasanaeth ac roedd pob ardal yn lân, ond, gellid gwella agweddau ar yr ymarfer o ran hylendid y geg a gofal personol. Er enghraifft, eistedd y plant i lawr yn ddiogel wrth frwsio eu dannedd a'u hannog i olchi eu dwylo a'u hwyneb ar ôl chwarae yn yr awyr agored.

Roedd yr ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio'n sensitif drwy ddefnyddio dulliau rheoli ymddygiad cadarnhaol. Roeddent yn gweithredu'n gyson, ac yn ymyrryd yn gynnar er

mwyn sicrhau bod y plant yn cael y cymorth yr oedd ei angen arnynt i ddeall y rheolau o ran sut i ymddwyn yn gadarnhaol.  Er enghraifft, rhoddwyd cynlluniau gweithredu â thargedau ar waith er mwyn helpu i reoli ymddygiad annymunol.  Trafodwyd y rhain â'r rhieni a chytunwyd arnynt cyn eu rhoi ar waith a chael canlyniadau llwyddiannus.  Roedd yr ymarferwyr yn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal ac amrywiaeth drwy helpu'r plant i wisgo amrywiaeth o wisgoedd a chwarae rôl rhieni gyda'r doliau, gan roi cwtsh iddynt ac esgus rhoi bwyd iddynt.  Roedd yr ymarferwyr yn rhyngweithio mewn ffordd fagwrus, gan siarad â'r plant yn barchus ac mewn ffordd gyfarwydd.

Roedd yr ymarferwyr ym mhob rhan o'r gwasanaeth yn ymrwymedig i gynllunio themâu a gweithgareddau sy'n creu cyfleoedd i'r plant ddatblygu.  Roeddent yn olrhain cynnydd y plant ac yn cadw cofnodion manwl am eu sylwadau.  Fodd bynnag, roedd y dulliau ar gyfer olrhain cynnydd y plant yn amrywio ar draws y gwasanaeth a allai golygu y bydd yn anodd asesu eu cynnydd dros amser.  Mae hyn hefyd yn golygu bod yr ymarferion yn wahanol ym mhob ardal, a bod y gwaith cynllunio sy'n llywio camau nesaf y plant o ran chwarae a dysgu yn anodd ei ganfod.  Roedd yr ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd i'r plant ddatblygu eu hannibyniaeth. Er enghraifft, annog y plant i gasglu eu hesgidiau o'u drarau unigol a golchi eu dwylo cyn bwyta.  Fodd bynnag, gellid ystyried cyfleoedd i'r plant ddatblygu'r sgiliau hyn ymhellach, gan sychu eu hwynebau eu hunain ar ôl amser bwyd, gyda chymorth gan y staff.

## 3. Yr Amgylchedd Da

### Crynodeb

Mae gan yr arweinwyr bolisïau a gweithdrefnau effeithiol ar waith i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn lân. Maent yn gosod y plant a'u hanghenion wrth wraidd y gwasanaeth ac yn sicrhau bod yr amgylchedd yn diwallu anghenion y plant sy'n datblygu. Mae'r adnoddau a'r cyfarpar yn briodol ar gyfer oedran y plant, mewn cyflwr da ac mae digon ohonynt er mwyn galluogi'r plant i chwarae gyda'i gilydd a chael amrywiaeth o ddewis. Mae buddsoddiad rheolaidd yn sicrhau bod teganau ac adnoddau yn parhau i fod yn addas ac mewn cyflwr da.

### Ein canfyddiadau

Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod yr ymarferwyr yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelwch a lles y plant. Roedd yr ymarferwyr yn gyfarwydd â'r gweithdrefnau i'w dilyn er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau i fod yn lân ac yn hylan; gan ddisgrifio'r mesurau glanhau a gymerir i leihau croes-heintio yn hyderus. Er enghraifft, roedd yr arferion ar waith ar gyfer newid a storio dillad gwely'r plant yn hybu iechyd a hylendid, ac yn atal croes-heintio. Roedd yr ymarferwyr wedi'u lleoli'n dda er mwyn sicrhau bod y cymarebau staffio'n bodloni'r cymarebau gofynnol ar gyfer pob grŵp oedran, ac roedd ymarferwyr ychwanegol ar gael i helpu'r plant yn ystod amseroedd bwyd. Roedd pob ardal o'r gwasanaeth i'w gweld yn ddiogel. Roedd systemau effeithiol ar waith a oedd yn sicrhau bod gwaith cynnal a chadw a gwiriadau diogelwch yn cael eu cwblhau'n rheolaidd, a bod camau gweithredu'n cael eu cymryd yn brydlon er mwyn ymdrin ag unrhyw faterion a nodwyd.

Roedd yr arweinwyr a'r ymarferwyr yn dilyn arferion trylwyr a strwythuredig er mwyn sicrhau bod y safle'n ddiogel a rhoddwyd blaenoriaeth i ddiogelu. Wrth i ni gyrraedd, roedd y brif fynedfa ar wahân yn darparu amgylchedd proffesiynol a chroesawgar a oedd yn ddiogel rhag mynediad diawdurdod. Roedd cofnod o'r ymarferwyr â'r safle yn cael ei gadw, ac roedd y gwasanaeth yn goruchwylio'r contractwyr cynnal a chadw yn dda. Roedd yr ardaloedd chwarae yn yr awyr agored yn ddiogel gyda digon o ffensys uchel a giatiau diogel. Roedd yr ardal awyr agored yn gyfeillgar ac yn darparu amgylchedd cyfoethog ar gyfer chwarae a dysgu, gyda naws wledig a llonydd.

Roedd yr arweinwyr wedi cynllunio'r ardal awyr agored yn ofalus i gynnig amrywiaeth gyffrous i'r plant. Roedd ardal chwarae benodedig ar gael i bob grŵp oedran, a oedd yn cynnwys digon o adnoddau ar gyfer eu hoedran ac yn ysgogol i'r plant. Defnyddir cynllun y gwasanaeth yn hyblyg er mwyn diwallu anghenion y plant yn y ffordd orau. Er enghraifft, roedd yr arweinwyr wedi nodi y byddai'r ardal a ddefnyddiwyd fel ystafell fwyta yn flaenorol yn well ar gyfer diwallu anghenion gofal y babanod, a chafodd ei hailwampio'n briodol i weddu'r grŵp oedran hwnnw. Defnyddiwyd deunyddiau wedi'u hailgylchu yn effeithiol. Er enghraifft, defnyddiwyd paled i greu ardal lwyfan ar gyfer y plant, ac roedd y plant yn prysur

lenwi hen deiars â phridd, yn rhodd gan riant, er mwyn creu planwyr. Dan do, defnyddiwyd adnoddau naturiol yn dda a oedd yn annog y plant i ddatblygu'r cydgysylltiad rhwng eu dwylo a'u llygaid wrth osod rhannau o ganghennau coed ar ben ei gilydd.

Roedd yr arweinwyr yn cynnal a chadw'r amgylchedd i safon uchel, gyda phob ardal yn groesawgar, wedi'i haddurno’n dda ac yn canolbwyntio ar y plentyn. Roedd digon o gyfleusterau glân ar gael i'r plant a oedd yn hybu eu hylendid personol. Roedd digon o gadeiriau uchel er mwyn galluogi'r plant ieuengaf i fwynhau pryd o fwyd gyda'i gilydd, ac roeddent mewn cyflwr da. Mae modd i'r plant gael ymdeimlad o sicrwydd ac ymdeimlad o drefn wrth i bob un ohonynt gael man penodol i storio eu heiddo, a drâr ar wahân ar gyfer eu hesgidiau a'u hesgidiau glaw. Roedd digon o welyau er mwyn galluogi'r plant i gysgu yn ystod amser cysgu, ac roedd cornel gyfforddus ym mhob ystafell yn rhoi'r dewis iddynt orffwys os oedd plentyn yn dymuno gwneud hynny.

Roedd yr adnoddau a'r cyfarpar ar draws y gwasanaeth mewn cyflwr da, yn briodol ar gyfer oedran y plant ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Roedd yr allanfeydd tân yn cael eu cadw'n glir ac roeddent mewn cyflwr da. Roedd arddangosfeydd lliwgar, dwyieithog yn hyrwyddo'r Gymraeg ac yn dathlu cyflawniadau'r plant. Roedd yr ymarferwyr yn sicrhau bod teganau’n cael eu cylchdroi a'u glanhau'n rheolaidd, er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn cadw at yr egwyddorion rheoli heintiau.

## 4. Arwain a Rheoli **Rhagorol**

### Crynodeb

Mae'r arweinyddiaeth yn systematig, wedi'i llywio a'i hysgogi i fod yn effeithiol ac er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol i'r plant. Mae gan yr arweinwyr weledigaeth eang ar gyfer y gwasanaeth, ac maent yn defnyddio gweithdrefnau adborth hunanwerthuso eang a sicrhau ansawdd helaeth er mwyn cynllunio ar gyfer gwelliannau arloesol ac i anelu at ragoriaeth. Maent yn rheoli'r ymarferwyr yn llwyddiannus, yn gosod disgwyliadau uchel ac yn sicrhau bod pawb yn flaengar ac yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth sy'n rhagori ar y safonau ac yn diwallu anghenion unigol y plant yn llawn. Maent yn meithrin partneriaeth ac yn gwerthfawrogi mewnbwn gan rhieni yn fawr.

### Ein canfyddiadau

Mae gan yr arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer eu gwasanaeth y maent yn ei chyfleu'n llwyddiannus drwy eu datganiad o ddiben manwl. Roedd y datganiad o ddiben yn adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir yn gywir ar adeg yr arolygiad, ac mae'n galluogi'r rhieni i wneud penderfyniad gwybodus mewn perthynas â gofal eu plant. Mae'r arweinwyr yn ymdrechu at ragori ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol lle y bo'n bosibl, er enghraifft, sicrhau bod yr holl ymarferwyr wedi cael hyfforddiant Cymorth Cyntaf, Diogelu a Hylendid Bwyd. Roedd polisïau a gweithdrefnau, a oedd yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, yn cefnogi ac yn herio'r ymarferwyr i wneud eu gorau glas, a oedd yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol i'r plant. Mae'r arweinwyr yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer yr ymarferwyr, gydag oddeutu 85 y cant ohonynt â chymhwyster gofal plant ac mae disgwyl i sawl aelod o'r staff sy'n weddill ymgymryd â hyfforddiant neu gymhwyster hyfforddi perthnasol a fydd yn hybu eu datblygiad proffesiynol. Mae'r rhanddeiliaid yn y cwmni i'w gweld ac maent yn cyfrannu'n sylweddol at y gwasanaeth mewn ffordd gadarnhaol. Mae'r arweinwyr yn hyrwyddo'r Gymraeg, ac mae'r ymarferwyr a'r rheolwyr ar gael i gysylltu â'r rhieni drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae gan yr arweinwyr systemau helaeth, hynod effeithiol ar waith ar gyfer gwerthuso ac asesu'r gwasanaeth a ddarperir ganddynt. Mae ganddynt raglen o wella pwrpasol parhaus sydd wrth wraidd yr arferion dyddiol ac yn asesu'r cynnydd tuag at dargedau yn rheolaidd ac yn llwyddiannus. Maent yn mynd ati'n rhagweithiol i ystyried cyngor, arweiniad ac argymhellion gan asiantaethau allanol ac yn creu cynlluniau gweithredu sy'n dangos y ffordd y caiff yr argymhellion hynny eu rhoi ar waith. Eir ati i ofyn am adborth gan y plant, y rhieni a'r ymarferwyr, a gaiff ei ddadansoddi fel rhan o'r prosesau sicrhau ansawdd a'i ddefnyddio i greu'r adolygiad o ansawdd y gofal systematig, sy'n mynd rhagddo.

Roedd yr arweinwyr yn dilyn prosesau recriwtio trylwyr, diogel a chywir er mwyn sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i ddiogelu. Roedd yr ymarferwyr yn deall eu rolau a'u chyfrifoldebau yn llwyr, gan eu bod yn cyflawni rhaglen sefydlu bwrpasol a thrylwyr dros sawl mis ac yn cael disgrifiad manwl o'u swydd. Roed yr ymarferwyr yn cael sesiynau goruchwylio rheolaidd ac arfarniadau blynyddol a oedd yn ystyried eu perfformiad. Dywedodd yr ymarferwyr y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo fel '*part of a team'* a'u bod yn mwynhau eu

gwaith.  Roeddent yn hapus â'r cyfleoedd hyfforddi a gawsant, ac yn siarad yn hyderus am yr hyfforddiant a gwblhawyd yn ddiweddar (Makaton) a'r hyfforddiant roedd disgwyl iddynt ei gwblhau (Cymorth Cyntaf).  Roedd yr ymarferwyr wedi'u lleoli'n effeithiol er mwyn sicrhau bod y plant yn cael parhad gofal ac y gallant feithrin cydberthnasau agos â'r rheini sy'n gofalu amdanynt.

Roedd yr arweinwyr yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y plant yn ffynnu.  Gwnaed hyn drwy feithrin partneriaethau ymddiriedus a chynhyrchiol â'r rhieni.  Mae polisi drws agored ar waith drwy'r gwasanaeth sy'n croesawu'r rhieni i ymweld â'u plant yn yr ystafelloedd dynodedig ar unrhyw adeg.  Ar adeg casglu'r plant, gwelsom fod croeso i'r rhieni aros, chwarae gyda'u plentyn a sgwrsio â'r ymarferwyr, gan helpu i feithrin cydberthnasau a datblygu ymddiriedaeth a sianeli cyfathrebu clir/ cadarn.  Roedd y staff yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhieni.  Cawsant ddyddiaduron wythnosol am amser eu plentyn yn y gwasanaeth, cylchlythyron rheolaidd ac adborth ar lafar gan yr ymarferwyr.  Ceir gwefan llawn gwybodaeth i gael gafael ar wybodaeth y tu allan i oriau agor a hysbysfyrddau ym mhob rhan o'r gwasaneth yn helpu i roi'r diweddaraf i'r rhieni.  Gellid ystyried bod rhywfaint o wybodaeth ar yr hysbysfyrddau'n sensitif, ac atgoffwyd yr arweinwyr am yr angen i hyrwyddo cyfrinachedd bob amser. Roedd llinellau cyswllt yn gadarnhaol dros ben, gydag uwch aelod o'r tîm yn cyfarch y rhieni bob amser.  Roedd systemau helaeth ar waith er mwyn sicrhau bod negeseuon a gwybodaeth bwysig o gartref yn cael eu rhannu'n effeithiol â'r rhai sy'n gofalu am y plant, er lles y plentyn.  Gwnaethom siarad â rhiant a ddywedodd wrthym ei fod yn*'love it!'*. Soniodd am hapusrwydd ei blentyn a pha mor hapus yr oedd â'r gwasanaeth a ddarperir.

# 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

## 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

## 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Gwnaethom argymell y gallai'r unigolyn cyfrifol wneud y canlynol;

- datblygu system sy'n olrhain cynnydd y plant ym mhob rhan o'r gwasanaeth;
- monitro sgiliau'r ymarferwyr mewn perthynas â hylendid y geg ac arferion gofal personol y plant;
- sicrhau bod dŵr yfed ffres ar gael o fewn cyrraedd y plant ym mhob ardal yn y gwasanaeth.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Gwnaeth dau gyflogai o Arolygiaeth Gofal Cymru ymweld â'r gwasanaeth ddydd Mawrth, 21 Mai 2019, rhwng 09:50 a 18:30.

Gwnaethom y canlynol:

- archwilio sampl o ddogfennaeth;
- arsylwi ar arferion er mwyn nodi tystiolaeth o ymgysylltiad y plant a'r gofal a ddarperir gan yr ymarferwyr;
- siarad â'r plant, un rhiant a nifer o'r ymarferwyr ym mhob rhan o'r gwasanaeth;
- arsylwi ar ystod, amrywiaeth ac ansawdd y teganau ac adnoddau a oedd ar gael i'r plant;
- darllen y cylchlythyr diweddaraf, yr adroddiad o ansawdd y gofal, adborth gan y plant mewn holiaduron, ac ystyried gwybodaeth a ddelir gan y gwasanaeth ar y plant a'r ymarferwyr;
- rhoi adborth am y gwasanaeth a'i sgôr i'r unigolyn cyfrifol.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal Dydd Plant**<br>**Gofal Dydd Llawn** |
| **Unigolyn Cyfrifol** | **Ellen Lloyd-Wilson** |
| **Person â chyfrifoldeb** | **Kelly Davies**<br>**Rebecca Medenica**<br>**Ellen Lloyd-Wilson** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **75** |
| **Ystod oedran y plant** | **3 mis – 12 oed** |
| **Oriau agor** | **Rhwng 07:30 a 18:00 o ddydd Llun i ddydd Gwener** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Y ddwy** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **24 Ebrill 2017** |
| **Dyddiadau'r ymweliad arolygu hwn** | **21 Mai 2019** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Nod y gwasanaeth hwn yw gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |

**Dyddiad Cyhoeddi** Insert_Report_Published_Actual_Donot_Delete